

Cynllun Busnes 2017-20

Lefel 1

Adroddiad Monitro Chwarter 2

Cynllun Busnes GwE 2017-20
Monitro Chwarter 2 - Lefel 1

1. SAFONAU							
Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
1 1.6 1.7 E1 C ALI x 6 R6 R7 R15	Safonau - sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.	<p>Cyfnod Sylfaen - gwella perfformiad y cyfnod sylfaen:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu cyflymder y gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Codi safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen Cynnal safonau da yn Wrecsam a Sir y Flint. 	<p>Gwelliannau mewn safonau ar ddiwedd y CS ar draws y rhanbarth gyda 89.84% yn cyflawni'r DCS.</p> <p>Gwelliant yn y % sy'n cyflawni'r DCS yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ynys Môn – 89.29% Gwynedd - 91.49% Conwy - 87.89% Sir Ddinbych - 87.89% <p>Codi safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen, i 93.5%</p> <p>Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yn yr holl ddangosyddion ar draws y rhanbarth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ILICHs 40.6% ILICHc 43.1% DM 42.6% DPCh 69.3% 	Marc B.Hughes	Mehefin 2018	£50,000 (GGA11) 100 diwrnod £100,000 (M5) 300 diwrnod	<p>Dengys data rhanbarthol cychwynnol a gasglwyd yn 2017 gynnydd o 1.1% yn y DCS</p> <p>Mae 4 maes y CS wedi cynyddu yn rhanbarthol – ILICHc 89.1% (+1.3%), ILICHs 88.4% (+1.9%), DM 90.1% (+0.6%) a DPCh 95.1% (+0.7%)</p> <ul style="list-style-type: none"> Môn - 85.8% Gwynedd - 86.6% Conwy - 84% Sir Ddinbych - 85.5% <p>Gwnaeth dau ALI welliannau sylweddol – Wrecsam a Sir y Fflint Sir y Fflint 86.9% i 89.5% (+2.6%) Wrecsam 86.6% i 88.4% (+1.9)</p> <p>O ganlyniad, adolygwyd feini prawf llwyddiant deilliannau'r rhain a nodwyd y gwelliannau sydd eu hangen ar lefel</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>ranbarthol ac ALI penodol ar gyfer Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Gosodwyd y targedau a ganlyn:</p> <p>Ynys Môn – 89.29%</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwynedd - 91.49% • Conwy - 87.89% • Sir Ddinbych - 87.89% <p>Nodwyd y lefelau uwch ar gyfer targedu pellach yn dilyn cynnydd eleni o: ILiChC 34.6% (+2.7%), ILiChS 38.6% (+2.3%), DM 38.2% (+2.3%) a DPCh 64.1% (+2.5%)</p> <p>Dyma'r targedau newydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • ILiChS 40.6% • ILiChC 43.1% • DM 42.6% • DPCh 69.3%
1 1.8 1.9 E1 C		<p>Cyfnod Allweddol 2 - gwella'r perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Conwy yng Nghyfnod Allweddol 2 	<p>Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Conwy yng Nghyfnod Allweddol 2 i 90.1%.</p> <p>Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill.</p>	Marc B.Hughes	Mehefin 2018	<p>£50,000 (GGA 2) 100 diwrnod</p> <p>£32,500 (M5) 65 diwrnod</p>	<p>Dengys data cychwynnol a gasglwyd yn 2017 gynnydd o 1.6% yn y DPC, o 88.8% i 90.4%</p> <p>Mae 4 maes CA2 wedi cynyddu yn rhanbarthol fel a ganlyn: Cymraeg (+1.6%),</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
ALI x 6 R6 R7		<ul style="list-style-type: none"> Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill 					<p>Saesneg (+1.7%), Mathemateg (+1.2%) a Gwyddoniaeth (+0.8%).</p> <p>Roedd tri ALI (Conwy, Wrecsam a Sir y Fflint) o fewn 0.5% i'w targed ar gyfer 2017 a rhagorodd dau ALI ar eu targed (Ynys Môn a Gwynedd). Roedd Sir Ddinbych 1.1% islaw eu targed</p> <p>Gwynedd (+1.3%) Ynys Môn (+0.4%) Conwy (-0.5%) Sir Ddinbych (-1.1%) Sir y Fflint (-0.3%) Wrecsam (-0.3%)</p> <p>Mae'r deilliannau uwch wedi gwella yn sylweddol yn 2017 fel a ganlyn: Cymraeg (+3.8%), Saesneg (+4.5%), Mathemateg (+6.1%) a Gwyddoniaeth (+5.6%)</p> <p>Yng Nghonwy, bu gwelliant o 1.7% (o 86.8% i 88.4%) – mymryn islaw'r targed o 88.9% ar gyfer 2017</p> <p>Ni lwyddodd 52 dysgwr nad oeddent ar y gofrestr</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							ADY i gyflawni'r DPC. Mae hyn yn 0.67% o garfan Blwyddyn 6. Gwynedd – 4 dysgwr Ynys Môn – 3 dysgwr Conwy – 4 dysgwr Sir Ddinbych - 6 dysgwr Sir y Fflint – 21 dysgwr Wrecsam – 13 dysgwr
1 1.8 1.9 E1 C ALI x 6 R6 R7		Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3.	Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3 i 92.21%.	Elfyn V Jones	Mehefin 2018	£4,000 (M12) 8 diwrnod £1,000 (C3) 2 ddiwrnod £8,000 (M12) 16 diwrnod £1500 (M12) 3 diwrnod £1,000 (C1) 2 ddiwrnod £3000 (C1) 6 diwrnod	Rhanwyd dadansoddiad ag ALI Wrecsam a staff GwE sydd wrthi'n adnabod ac yn nodi grwpiau o ddysgwyr, pynciau ac ysgolion ar gyfer cefnogaeth. Gwelwyd cynnydd ers rhagamcan 2 yn ALI Wrecsam o ganlyniad i dargedu ysgolion unigol. Dengys AA ar gyfer 2017 gynnydd o 1.9%, i 86.3% yn y DPC. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.5%, a hwn yw'r cynnydd gorau yn y rhanbarth. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad o asesiadau terfynol athrawon bod gwella perfformiad ALI Wrecsam yng nghyfnod allweddol 3 yn

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2			
							flaenoriaeth o hyd, a rhoddir sylw i hyn yn eu cynllun ALL.			
1		Gwella safonau yng Nghyfnod Allweddol 4: <ul style="list-style-type: none"> Gwella safonau yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4. Gwella perfformiad yn y pynciau sylfaenol. 	<p>Gwelliant ym mherfformiad dangosydd L2+ o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.</p> <p>Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD ar gyfer L2+ yn codi o 5%.</p> <p>55% o ysgolion yn perfformio yn unol â neu'n uwch na'r deilliant ar gyfer L2+.</p> <p>Cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-A mewn TGAU, neu gyfwerth, o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.</p> <p>Mae gan bob ysgol gynlluniau cefnogaeth da gyda ffocws ar godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4.</p>	Elfyn V Jones	Awst 2018	<p>Craidd</p> <p>£60,000 (C2) 120 diwrnod</p> <p>£23,000 (C3) 46 diwrnod</p> <p>£25,000 50 diwrnod</p> <p>£125,000 (M12) 250 diwrnod</p> <p>£811000 (GGA5) 22 diwrnod</p>	<p>Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 Cynhwysol (L2+) yn waelodlin newydd ar gyfer Cymru a'r rhanbarth y flwyddyn yma.</p> <p>Yn 2017, arholwyd y manylebau newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth am y tro cyntaf. Mae mathemateg yn cynnwys dau faes llafur (Rhifedd a Mathemateg) ac mae y naill neu'r llall o'r rhain yn cyfrannu at y Trothwy Lefel 2 Cynhwysol (L2+). Yn ogystal â hyn, golyga newidiadau i'r dangosydd L2+ mai dim ond Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg sy'n cael ei gynnwys; yn y gorffennol roedd Llenyddiaeth TGAU, Cymraeg neu Saesneg, hefyd yn cyfrannu.</p> <p>Mae'r L2+ amodol ar gyfer GwE yn 53.5% (nid oes data ar gael ar hyn o bryd i'w gymharu â'r consortia eraill).</p>			
1.1 - 1.5	E1		U	ALI x 6	R4	R5	R6	R7	R14	R16

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
1 1.1 – 1.10 E1 C U ALI x 6 R11		Gwella perfformiad dysgwyr PYD, yn enwedig mewn Iaith Saesneg.	Bydd y bwllch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau, o 5% o leiaf, mewn L2+ a'r DCS.	Elfyn V Jones / Marc B.Hughes	Awst 2018	£10,000 20 diwrnod Craidd	<p>Rhannwyd dadansoddiad o ragamcanion ag AauLL a staff GwE, sy'n nodi ac yn targedu grwpiau o ddysgwyr.</p> <p>Mae AA ar gyfer 2017 wedi cynyddu i 73.5% [o 67.6% yn 2015 a 73.3% yn 2016]. Mae mymryn o gynnydd yn y bwllch rhwng hPyd a dim PYD, o -17.2 i -18.0, oherwydd cynnydd o 1.0% ym mherfformiad disgyblion dim PYD.</p> <p>Dengys data cychwynnol bod perfformiad dysgwyr PYD yn y DCS wedi cynyddu o 1.7%, ac mae'r bwllch wedi lleihau o tua 1% yn 2017.</p> <p>CA4 - % dysgwyr PYD sydd wedi cyflawni'r L2+ wedi gostwng yn unol â'r gostyngiad a welwyd yn genedlaethol. Gellir rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad GwE mewn cymhariaeth â'r rhanbarthau eraill pan fydd y canlyniadau ar gael.</p>
1		Gwella perfformiad mewn Iaith Saesneg	Gwelliant yng nghanlyniadau Iaith Saesneg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd	Gaynor Murphy	Awst 2018	£15,000 (C3) 30 diwrnod	Yn 2017, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
1.1 – 1.5 1.8 1.9 E1 U R4 R5 R7 R14 ALI x 6			cenedlaethol.				<p>A*-C yn Iaith Saesneg wedi cynyddu 1.75%. Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud gydag ysgolion unigol.</p> <p>Mae cynlluniau clir mewn lle i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â pherfformiad.</p>
1 1.1 – 1.5 1.8 1.9 E1 U R4 R5 R7 R14		Gwella perfformiad mewn mathemateg a rhifedd	Gwelliant yn Rhifedd a mathemateg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Dafydd Gwyn / Delyth Ellis	Awst 2018	£25,000 50 diwrnod	<p>Yn 2017, canran y dysgwyr sy'n cyflawni A*-C yn Mathemateg (56.2%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (58.7%).</p> <p>Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni A*-C Rhifedd yn rhanbarthol (58.1%), 1.9% yn uwch na chanlyniadau 2017 Mathemateg.</p> <p>Mae angen dadansoddi ymhellach er mwyn cyfrifo canran y disgyblion sydd wedi cyflawni un ai Mathemateg neu Rhifedd (h.y. y ffigur sy'n cyfrannu</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
ALI x 6							<p>tuag at y L2+).</p> <p>Mae cynlluniau clir mewn lle i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â pherfformiad.</p> <p>Mae newidiadau i'r maes llafur TGAU wedi creu ansicrwydd ar draws y rhanbarth. Ffactor tra phwysig yw bod dros hanner o benaethiaid adrannau wedi'u penodi i'w rôl yn y ddwy flynedd ddiwethaf.</p>
1 1.1 – 1.10 E1 C U ALI x 6 R5 R7 R14 R16		<p>Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • PYD • Bechgyn • MATH 	Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr (PYD, Bechgyn, MATH) o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol - CS a CA4	Elfyn V Jones / Marc B. Hughes	Awst 2018	£10,000 20 diwrnod Craidd	<p>Rhannwyd dadansoddiad ag AauLL a staff GwE, sy'n nodi ac yn targedu grwpiau o ddysgwyr ac ysgolion ar gyfer cefnogaeth.</p> <p>Dengys data cychwynnol bod perfformiad dysgwyr PYD yn y DCS wedi cynyddu o 1.7%, ac mae'r bwch wedi lleihau o tua 1% yn 2017.</p> <p>Mae'r bwch rhwng y rhywiau yn y Cyfnod Sylfaen wedi lleihau ar draws y rhanbarth mewn 5 o'r 6 ALI, gyda</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>pherfformiad bechgyn yn gwella yn gyffredinol.</p> <p>Mae'r deilliannau uwch wedi gwella yn sylweddol yn y Cyfnod Sylfaen yn 2017: ILIChC (+2.7%); ILIChS (+2.3%); DM (+2.3%) a DPCh (+2.5%).</p> <p>Yn dilyn sefyldu gwaelodin newydd ar gyfer CA4 eleni, mae angen gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr wrth gymharu ag ysgolion tebyg.</p> <p>Mae perfformiad disgyblion PYD yng nghyfnod allweddol 4 yn flaenoriaeth allweddol o hyd.</p> <p>Mae cynlluniau clir mewn lle i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â pherfformiad</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
<p>2</p> <p>2.1 –</p> <p>2.4</p> <p>2.7</p> <p>C</p> <p>CaA</p> <p>ALI x</p> <p>6</p> <p>R15</p>	<p>Cwricwlwm ac asesu - sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.</p>	<p>Gwella'r ddarpariaeth, y cynllunio cwricwlwm a'r asesu yn y Cyfnod Sylfaen.</p>	<p>Mae gan bob ysgol gynradd weithdrefnau cwricwlwm ac asesu priodol ar waith yn y Cyfnod Sylfaen.</p>	<p>Marc B.Hughes</p>	<p>Tymor yr haf 2018</p>	<p>£45,000 (C1) 90 diwrnod</p>	<p>Mynychodd 289 o ymarferwyr (78% o ysgolion) y gweithdy ar wella darpariaeth a manwl gywirdeb AA.</p> <p>Dengys AA diwedd CS ar gyfer 2017 welliant yn y DCS mewn 4 o'r 6 awdurdod lleol.</p> <p>Roedd y cynnydd yn y rhanbarth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r DCS yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol (2016->2017 0.8% o'i gymharu â 0.3% yn genedlaethol).</p> <p>Cynnydd rhanbarthol ar y deilliannau disgwylidig yn y ganran sy'n cyflawni laith Gymraeg (1.3%), laith Saesneg (0.6%), Datblygiad Mathemategol (0.6%) a Datblygiad Personol a Chymdeithasol (0.7%). Roedd y cynnydd yn sylweddol uwch na'r cynnydd cenedlaethol ym mhob achos.</p> <p>Mae'r cynnydd ar y deilliannau uwch yn uwch na neu'n debyg i'r cynnydd cenedlaethol: laith</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							Gymraeg (2.7% o'i gymharu â 1.9% yn genedlaethol); Iaith Saesneg (2.3% o'i gymharu â 1.9% yn genedlaethol); Datblygiad Mathemategol (2.3% o'i gymharu â 2.3% yn genedlaethol) a Datblygiad Personol a Chymdeithasol (2.5% o'i gymharu â 2.4% yn genedlaethol).
2 2.1 – 2.8 U CaA ALI x 6 R5		Gwella cynllunio cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd er sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pob dysgwr.	Mae gan bob ysgol uwchradd gwricwlwm priodol ar waith yng Ngyfnod Allweddol 4 i wella perfformiad yn y dangosyddion perfformiad allweddol.	Paul Mathews-Jones	Tymor yr haf 2018	£13,000 (M17) 26 diwrnod £11,000 (GGA5) 22 diwrnod	Cyfarfod wedi ei gynnal gydag Arweinwyr Cwricwlwm Conwy. Mae Penaethiaid Sir Ddinbych wedi cytuno i alinio cynllunio cwricwlwm efo cynllunio strategol a bydd GwE yn ymwneud â'r agenda. Cytunwyd ar 3 cyfarfod bob blwyddyn ysgol. Yng Ngwynedd, bydd GwE yn cyfrannu at y fforwm dirprwy benaethiaid sydd eisoes wedi'i sefydlu. Mae PMJ a Phennaeth Ysgol Elfed yn cynrychioli GwE ar y Grwp PISA Cenedlaethol. Mewn cyfarfod ym mis Medi cytunwyd i rannu arfer orau a gwneud cyflwyniad i benaethiaid.

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
2 2.1 – 2.8 U CaA ALI x 6 R5		Gwella ansawdd asesu, tracio a rhaglenni ymyriad yn yr ysgolion uwchradd.	<p>Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau.</p> <p>Yr un ysgol i'w barnu yn anfoddfaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.</p>	Paul Mathews-Jones	Mis Medi 2017 ymlaen	<p style="text-align: right;">Craidd</p> <p style="text-align: right;">£15,000 (C1) 30 diwrnod</p> <p style="text-align: right;">£74,000 (GGA10) 148 diwrnod</p> <p style="text-align: right;">£11,000 (GGA5) 22 diwrnod</p> <p style="text-align: right;">£60,000 (C3) 120 diwrnod</p>	Mae tendr wedi'i anfon allan i greu taflenni marcio cyffredin gyda ffocws ar TGAU gwyddoniaeth. Mae Ysgol Dinas Bran, Syr Hugh Owen a Botwnnog wedi cael hyfforddiant cychwynnol ar sefydlu dangosfwrdd byw ar gyfer tracio data byw.
2 U CaA ALI x 6 R18		Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Safon A	Gwelliant yng nghanlyniadau Safon A ac UG, yn unol â thargedau ac i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dangosyddion allweddol.	Martyn Froggett	Mis Medi 2017 ymlaen	£5,000 (M17) 10 diwrnod	<p>Trafodaethau wedi cychwyn o ran cefnogaeth / her i YGC wrth ymwneud â OI-16.</p> <p>Bydd ymweliadau YCG yn cynnwys trafodaethau am berfformiad ôl-16 (yn cynnwys A*/A, A*-B, A*-C, A*-E a deilliannau lefel 3 disgwylidig).</p> <p>Bydd ffocws penodol ar yr ysgolion hynny ble mae ALPs yn llai na 6.</p>
2 2.1 – 2.8		Cyflawni Dyfodol Llwyddiannus - codi ymwybyddiaeth o'r Pedwar Diben o fewn Dyfodol Llwyddiannus a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fel	<p>Mae pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Cwricwlwm effeithiol seiliedig ar sgiliau ar waith mewn 85% o</p>	Ruth Thackery	Mis Ebrill 2017 ymlaen	Grant Arloesi	Mynychodd 110 o ysgolion (25%) weithdai ar y 4 Diben yn gynnar yn 2017 ac i gael diweddariadau cenedlaethol ar

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
<p>C U</p> <p>DLI1 DLI2 DLI3 DLI4</p> <p>CaA</p> <p>ALI x 6</p> <p>R19</p>		<p>rhan o ddiwygio'r cwricwlwm</p>	<p>ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.</p>				<p>ddatblygiadau cwricwlwm. Adroddodd 90% fod yr hyfforddiant yn berthnasol. Roedd 156 (36%) wedi cael hyfforddiant erbyn mis Mehefin 2017. Adroddodd 97% fod yr hyfforddiant yn berthnasol. Gweithdai i'w trefnu yn hydref 2017 i roi cyfle i weddill ysgolion GwE fynychu.</p> <p>Mae pob pennaeth uwchradd wedi cael gwybodaeth am ddatblygiadau yn y Gynhadledd Dyfodol Llwyddiannus gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2017, ac mae dilyniant gan y tîm Dyfodol Llwyddiannus wedi'i gytuno ar gyfer lleiafrif o benaethiaid. Bydd 370 o benaethiaid cynradd yn cael diweddariad ar ddatblygiadau Dyfodol Llwyddiannus mewn cynhadledd ar gyfer Penaethiaid Cynradd ddiwedd mis Medi.</p> <p>Cytunwyd i benodi arweinwyr clwstwr</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

<i>Cyf</i>	<i>Blaenoriaethau</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>	<i>Monitro Chwarter 2</i>
							Dyfodol Llwyddiannus ar draws y rhanbarth (53 i gyd) a chynnal hyfforddiant deuddydd ar reoli newid i gefnogi eu rôl wrth rannu datblygiadau Dyfodol Llwyddiannus yn eu clystyrau.
2 CaA		Adolygu ansawdd y ddarpariaeth ac asesu mewn canolfannau UCD.	Mae darpariaeth dda mewn UCD i ennill cymwysterau priodol a chyfrannu at ddangosyddion perfformiad allweddol ALI.	Richard Cubie	Mis Medi 2017 ymlaen	£2,000 (C1) 4 diwrnod	Gwaith i ddechrau tymor yr hydref.

3. ARWEINYDDIAETH

<i>Cyf</i>	<i>Blaenoriaethau</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>	<i>Monitro Chwarter 2</i>
3 3.1 – 3.17 C U A ALI x 6 R6	Arweinyddiaeth - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a	Ymhellach i hyn, datblygu a gwella ansawdd uwch arweinyddiaeth ym mhob sector ar draws y rhanbarth.	Mae gan 85% o Uwch Dimau Arwain brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well. Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion a osodir mewn Categoriâu Statudol Estyn. Dim ysgol i'w rhoi mewn Categori Statudol Estyn yn annisgwyl. Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion mewn Adolygu gan Estyn.	Pam McClean / David Edwards	mis Ebrill 2017 ymlaen	£10,000 (C1) £61,000 (M3) 122 diwrnod £72,000 (M17) 144 diwrnod £28,000 (C3) 56 diwrnod £12,000 (C1) 24 diwrnod	Mae GwE yn darparu ystod o raglenni, o rai ar gyfer darpar uwch arweinwyr i rai ar gyfer penaethiaid profiadol. Mae'r raglenni datblygu yn hybu cydweithio ysgol-i-ysgol gydag ymarferwyr effeithiol yn cyflwyno sesiynau ar y cyd â staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system hunan wella ar draws gogledd Cymru.

3. ARWEINYDDIAETH

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
	<p>chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.</p>		<p>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion sy'n cael gradd D yng ngham 2 y broses Gategoreiddio.</p> <p>Cynnydd o 25% yn nifer yr ysgolion uwchradd a chynradd sy'n cael gradd A yng ngham 2 y broses Gategoreiddio.</p>			<p>£15,000 (GGA5) 30 diwrnod</p>	<p>Uwchradd: Rhaglen Datblygu Penaethiaid – bydd rhaglen 2017 yn dechrau ar ôl hanner tymor mis Hydref</p> <p>Mae Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr ar gyfer carfan llawer llai. Bydd y rhaglen yn cael ei hymestyn eleni i ddiwallu anghenion.</p> <p>Mae'r rhaglen ar gyfer Penaethiaid newydd a Phenaethiaid mewn gofal yn newydd ar gyfer eleni a bydd yn dechrau ar ôl hanner tymor mis Hydref. Cysylltwyd â'r holl staff perthnasol ac maent wedi ymuno â'r rhaglen, fel y bydd cysondeb ar draws y rhanbarth a mwy o gymorth i'r rhai hynny sy'n ymgymryd â'r rôl hon.</p> <p>Cynradd: Rhaglen Datblygu Penaethiaid – cynhelir rhaglen 4-diwrnod ar gyfer penaethiaid mewn swydd (themâu craidd arweinyddiaeth h.y. arwain newid, hyfforddi, gwaith tîm, datrys problemau, grymuso ac atebolrwydd,</p>

3. ARWEINYDDIAETH

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>cyflawni ar gyfer yr holl randdeiliaid) ym mis Tachwedd 2017. Mae 15 o benaethiaid yn cymryd rhan yn y rhaglen.</p> <p>Rhaglen Datblygu CPCP [rhaglen ranbarthol]. Y nifer fwyaf o ymgeiswyr wedi'i gofnodi sy'n creu carfan lawn. Mae mentoriaid wedi'u sefydlu a mae hyfforddiant yn barod i'w gyflwyno yn ystod tymor y gwanwyn 2018.</p> <p>Datblygu Darpar Arweinwyr Canol [rhaglen ranbarthol]. Datblygu ymhellach ymwybyddiaeth o DLI a'r cynnydd tuag ato fel rhan o'r holl hyfforddiant craidd ar gyfer arweinwyr canol.</p> <p>Dechreuodd carfanau newydd o athrawon ar yr hyfforddiant y tymor hwn (carfan 6 a 7 cyfrwng Saesneg a charfan 6 cyfrwng Cymraeg). Mynychodd 89 i gyd. Mae hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd y Cyfnod Sylfaen Carfan 1 yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda 30 yn cymryd rhan.</p>

3. ARWEINYDDIAETH

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
3 3.1 – 3.17 C U DL1 DL2 DL3 DL4 A ALI x 6 R19		Cefnogi'r UDA i gyflawni Dyfodol Llwyddiannus yn effeithiol.	Pob ysgol yn y rhanbarth ar y llwybr iawn i gyflawni Dyfodol Llwyddiannus	Ruth Thackery	mis Ebrill 2017 ymlaen	Grant Arloesi	<p>Mae ystod dda iawn o raglenni arweinyddiaeth bellach yn cynnwys yr elfen Dyfodol Llwyddiannus yn y rhaglen graidd. Defnyddir adnodau canolog er sicrhau cysondeb. Yn ogystal, mae presenoldeb yn cynnwys clystyrau penaethiaid, cyfarfod dirprwy benaethiaid – oddeutu 100 i gyd; hyfforddiant arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd – 92 i gyd; digwyddiadau clwstr ar draws y chwe Awdurdod Lleol – dros 366 o arweinwyr ac athrawon i gyd; ANG uwchradd a chynradd – 92 i gyd. Dengys adborth ymwybyddiaeth gynyddol o ddatblygiadau cwricwlwm a chefnogaeth GwE.</p> <p>Hwyluswyd codi ymwybyddiaeth ac ymgynghori ar y Safonau newydd ar gyfer athrawon - cynhaliwyd 6 sesiwn a mynychodd oddeutu 253 ar draws y rhanbarth.</p> <p>Cafodd pob pennaeth uwchradd wybodaeth am ddatblygiadau yn y</p>

3. ARWEINYDDIAETH

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							Gynhadledd Dyfodol Llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2017. Cafodd 370 o benaethiaid cynradd ddiweddariad ar ddatblygiadau Dyfodol Llwyddiannus yn y Gynhadledd i Benaethiaid Cynradd ddiwedd mis Medi 2017.
3 3.1 – 3.17 C U A ALI x 6		Datblygu a gwella ymhellach ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws y rhanbarth.	Mae gan 85% o Dimau Arweinyddiaeth Ganol brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.	Ian Kelly	mis Hydref 2017 ymlaen	Craidd £65,000 (M3) 130 diwrnod £58,000 (C3) 116 diwrnod £47,000 (C1) 94 diwrnod £20,000 (M17) 40 diwrnod £13,000 (GGA5) 26 diwrnod	Gwaith i ddechrau ym mis Hydref 2017.
3 3.1 – 3.4 3.6 3.10		Gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd yn yr ysgolion uwchradd. <ul style="list-style-type: none"> • Iaith Saesneg • Cymraeg • Mathemateg • Gwyddoniaeth 	Mae gan 85% o adrannau pynciau craidd brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well. Mae arweinwyr canol yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w	Gaynor Murphy Rhian Mair Jones Dafydd Gwyn Nicola Jones	mis Ebrill 2017 ymlaen	£21,000 (C1) 52 diwrnod £15,000 30 diwrnod £15,000 (M12) 30 diwrnod	Risg – nifer sylweddol o benaethiaid adran newydd, yn enwedig mewn mathemateg. Pob pennaeth adran pynciau craidd yn cael arweiniad a chymorth gydag

3. ARWEINYDDIAETH

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
- 311 3.14 – 3.17 U A R4 ALI x 6			targedau a bod 60% o fewn 2% yn y pynciau craidd.				agweddau allweddol mewn rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Pob adran pwnc craidd bellach yn cael ei ragio ar gyfer cael cefnogaeth wahaniaethol tair haen. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn cynlluniau cefnogaeth unigol.
3 3.1 – 3.17 C U A R6 ALI x 6		Datblygu Darpar Benaethiaid / Uwch Arweinwyr	Rhaglen ar gyfer Darpar Benaethiaid ar waith. 50 o unigolion wedi'u hadnabod ac wedi cwblhau'r rhaglen. 25% o'r unigolion sydd wedi cymryd rhan wedi ymgeisio am swyddi UDA neu wedi cael dyrchafiad erbyn diwedd y flwyddyn. Arfarniad cadarnhaol gan ysgolion a chan arfarnwr allanol ar effaith y rhaglen ar unigolion.	Ian Kelly	mis Hydref 2017 ymlaen	£20,000 (M3) 40 diwrnod	Gwaith i ddechrau ym mis Hydref 2017.

4. LLES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
4 4.1 - 4.12 C U LI R11 ALI x 6	Lles - creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.	Datblygu a gweithredu strategaeth gyffredin ar gyfer Lles ar draws y rhanbarth.	<p>Gweithredu'r strategaeth ar draws y rhanbarth.</p> <p>Dull cydweithrediadol ac effeithiol ar gyfer cyflawni agenda genedlaethol gyffredin gyda rolau a chyfrifoldebau clir i'r holl bartneriaethau.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda'r holl asiantaethau allweddol sy'n cefnogi'r agenda i sicrhau effaith gadarnhaol ar bob dysgwr.</p> <p>Mae y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol.</p>	Sharon Williams	Tachwedd - Rhagfyr 2018.	Craidd	Gwaith i ddechrau ym mis Hydref 2017.
4 4.1 - 4.12 C U LI R11 ALI x 6		Gwella ymddygiad phresenoldeb.	<p>Pob ysgol yn bodloni eu targedau presenoldeb y cytunwyd arnynt.</p> <p>Gosodir 60% o ysgolion yn nau chwarter uchaf y data presenoldeb a gofnodir yn setiau data craidd Cymru gyfan. Rhoddir sylw penodol i grwpiau o ddysgwyr targed â blaenoriaeth, fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru.</p>	Awdurdodau Lleol	Haf 2018	£20,000 (C3) £5,000 (M17)	Trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau. Bydd trafodaethau pellach eu cael eu cynnal yn ystod tymor yr hydref.

5. ADDYSGU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
<p>5</p> <p>5.1 –</p> <p>5.9</p> <p>C</p> <p>U</p> <p>D</p> <p>R4</p> <p>ALI x</p> <p>6</p>	<p>Addysgu - sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.</p>	<p>Gwella a chryfhau rôl arweinwyr wrth arwain y dysgu a'r addysgu.</p>	<p>Mae gan bob UDA ac AC mewn ysgolion y sgiliau angenrheidiol a dealltwriaeth o addysgu da ac eithriadol er mwyn cynnig arweiniad a hyfforddiant yn eu hysgolion.</p> <p>Mae addysgu effeithiol ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.</p> <p>Cyflawnir disgwyliadau Estyn, hynny yw, bod 85% neu fwy o wersi yn dda neu well, gan 85% o ysgolion ar draws y rhanbarth.</p> <p>Cynnydd cyffredinol o 5% mewn barnau da neu well ar gyfer y dysgu a'r addysgu ym mhob ysgol a arolygir gan Estyn.</p>	<p>Stella Gruffydd / Bethan James</p>	<p>mis Medi 2017 ymlaen</p>	<p>£20,000 (C1) (40 diwrnod)</p>	<p>Mae carfan 4 a 5 wedi cwblhau'r rhaglen datblygu arweinwyr canol yn llwyddiannus. Roedd yn cynnwys modiwlau penodol ar arwain y dysgu a'r addysgu. Cynhyrchwyd adroddiad o'r effaith gan Brifysgol Bangor.</p> <p>Mae'r rhaglen Datblygu Dysgu ac Addysgu wedi'i chwblhau yn llwyddiannus. Roedd yn cynnwys modiwlau penodol ar arwain y dysgu a'r addysgu. Mae 115 o arweinwyr llythrennedd a rhifedd wedi cwblhau'r rhaglen.</p> <p>Cyflwynwyd rhaglen bwrpasol yn yr holl ysgolion categori cefnogaeth coch er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn gwella'r dysgu a'r addysgu yn fwy effeithiol.</p> <p>Rhoddir arweiniad a chymorth ar arwain y dysgu a'r addysgu i bob pennaeth adran pynciau craidd mewn rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.</p>

5. ADDYSGU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
5 5.1 – 5.9 C U D R4 ALI x 6		Gwella ansawdd yr addysgu a'r profiadau i bob dysgwr	<p>Cymorth a hyfforddiant pwrpasol i ysgolion risg uchel lle mae materion allweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu (i'w gadarnhau).</p> <p>Mae safonau addysgu yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o Brosiect Asesu Ffurfiannol ac Addysgeg, dan arweiniad timau ymchwil weithredu Shirley Clarke mewn ysgolion, yn gyson dda neu well, gydag unigolion sy'n cymryd rhan ar Haen 1 yn arddangos arfer ragorol. Mae adroddiadau Estyn ar ysgolion sy'n cymryd rhan yn cadarnhau hyn.</p> <p>Effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch.</p>	Stella Gruffydd / Bethan James	mis Medi 2017 ymlaen	<p>£14,000 (C1) 28 diwrnod</p> <p>£30,000 (C2) 60 diwrnod</p> <p>£15,000 (C3) 30 diwrnod</p> <p>£10,000 (GGA10) 20 diwrnod</p> <p>£6,000 (GGA5) 12 diwrnod</p>	<p>Cyflwynir rhaglenni cefnogaeth pwrpasol mewn ysgolion risg uchel.</p> <p>Detholwyd ysgolion yn llwyddiannus gan y grwp gweithredu</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd i dynnu rhestr fer, cynhaliwyd cyfweiliadau ysgol grymus a chyson, gweithdrefnau tryloyw ar waith. Hysbyswyd yr ysgolion llwyddiannus. Dyddiadau wedi'u pennu ar gyfer Haen 1.</p> <p>Ymestyn nifer yr ysgolion yn y prosiect – cyf-weld chwe ysgol arall ym mis Medi 2017.</p>

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
6 B	Busnes - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes	Penodi Rheolwr Gyfarwyddwr llawn amser / parhaol ar gyfer y Gwasanaeth.	Rheolwr Gyfarwyddwr wedi'i benodi	Cyd-Bwyllgor	Mehefin 2017	Craidd	Penodwyd RhG ym mis Mehefin
6 B	a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.	Ailstrwythuro'r gwasanaeth i greu model arweinyddiaeth ddsbarthol ac adlewyrchu'r	Ailstrwythuro ar waith gyda chyfrifoldebau clir ar gyfer ystod eang o staff.	Arwyn Thomas / Rhys H Hughes	Medi 2017	Craidd	Ailstrwythuro'r tîm proffesiynol wedi'i gwblhau. Ail strwythuro'r

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
		gofynion presennol o'r gwasanaeth.					tim busnes yn parhau.
6 B		Adolygu polisi rheoli perfformiad staff	Mae'r polisi yn rhoi sylwi i ddiwylliant, i weledigaeth ac i werthoedd GwE wrth gefnogi staff	Alwyn Jones	Mehefin 2017	Craidd	<p>Adolygwyd y polisi a'i gyflwyno i Gyd-bwyllgor GwE ym mis Medi 2017.</p> <p>Mae polisi Rheoli Perfformiad staff GwE wedi'i adolygu i adlewyrchu yn well y Cynllun Busnes Rhanbarthol a'r strwythur atebolrwydd a staff newydd.</p> <p>Bydd staff GwE yn cymryd rhan mewn Rheoli Perfformiad blynyddol bob mis Hydref, i'w adolygu bob chwarter i fonitro cynnydd.</p> <p>Bydd y newidiadau yn cynnig rhagor o gyfleoedd datblygiadol ar gyfer staff ac yn rhoi mwy o adborth a chefnogaeth i'w helpu i gyflawni eu hamcanion. Bydd hefyd yn galluogi staff i fod yn fwy hyblyg gyda'u hamcanion ac adolygu eu cyfeiriad yn ystod y flwyddyn os oes angen.</p>

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
6 B 6.7		Cynnal arolwg iechyd sefydliadol	Anelu at berfformiad yn chwarter uchaf y mynegai iechyd sefydliadol.	Susan O Jones	Medi 2017	Craidd	<p>Arolwg wedi'i gwblhau. Cwblhaodd 91% o staff GwE yr arolwg.</p> <p>Mae Mynegai Iechyd y Sefydliad (OHI) gan Mckinsey and Company yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut y mae GwE yn perfformio ar y naw elfen iechyd mewn perthynas â pherfformiad wedi'i feincnodi yn erbyn 1,300 cwmni arall yn rhyngwladol.</p> <p>Yn yr adroddiad, nodwyd GwE fel sefydliad sy'n perfformio yn y chwarter uchaf gyda chryfderau penodol mewn cyfeiriad, medrusrwydd ac arweinyddiaeth. Mae GwE felly mewn sefyllfa ffafriol gyda golwg ar ei allu i berfformio yn y dyfodol.</p> <p>Mae'n galluogi GwE i ddadansoddi cryfderau'r sefydliad a'i anghenion datblygu, a'n helpu i ddeall ble fyddai angen gweithredu er mwyn cynnal y lefelau presennol neu wella dros amser. Bydd meysydd ar gyfer</p>

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							datblygiad yn cael eu hymgorffori yng nghynllun datblygu'r gweithlu.
6 B 6.8		Sefydlu GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth efo LIC a OECD	Dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu.	Rhys H Hughes	Medi 2017	Craidd	<p>Arolwg OECD wedi'i gwblhau.</p> <p>Negeseuon allweddol: Darlun cadarnhaol cyffredinol o GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu</p> <p>Y dimensiwn cryfaf yw meithrin dysgu tîm a chydweithio ymhlith y staff.</p> <p>Yr ail ddimensiwn cryfaf yw datblygu gweledigaeth gytûn sydd â dysgu pob myfyriwr yn brif ganolbwynt.</p> <p>Y dimensiwn mae rhaid ei ddatblygu fwyaf yw dysgu gydag, ac oddi wrth, yr amgylchedd allanol a'r system ehangach</p> <p>Yr elfen unigol a sgoriodd isaf yw cydweithio â gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.</p> <p>Agwedd gadarnhaol yw'r gydberthynas rhwng barn</p>

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>y Rheolwyr Gyfarwyddwyr a'r Arweinwyr a barn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant [YCG] ar draws y saith dimensiwn.</p> <p>Mae angen i GwE ddatblygu ymhellach y strwythur Cefnogi Busnes newydd er mwyn datblygu'r saith dimensiwn i gael gwell aliniad o fewn y gwasanaeth.</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
7 E1 C U	Argymhellion Estyn - sicrhau y gwneir y cynnydd angenrheidiol yn erbyn pob argymhelliad yn erbyn yr amserlen a ddisgwyllir	Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.	System rheoli data gadarn ar waith. Mae'r holl ddeiliaid cynllun busnes yn defnyddio data yn effeithiol i gynllunio ac i arfarnu eu gwaith.	Alwyn Jones	Parhaus	Craidd	Defnyddio Data Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae GwE wedi rhoi prosesau grymus ac effeithiol ar waith i sicrhau bod data perfformiad allweddol yn cael ei ddadansoddi yn fwy diagnostig ar lefel ranbarthol, lleol ac ysgol unigol. Gweithredwyd rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i gefnogi YCG gyda'r dull newydd o

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>weithredu. O ganlyniad, mae arweinwyr ac YCG yn defnyddio data fel mater o drefn i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddadansoddi perfformiad ar draws y rhanbarth; • adnabod yn gywir feysydd allweddol ar gyfer gwelliant; • arfarnu effaith rhaglenni ymyrraeth penodol ar gyrhaeddiad disgyblion; • monitro ac olrhain cynnydd grwpiau o ddysgwyr ar lefel ranbarthol, ALI unigol ac ysgol unigol; a • herio a chefnogi arweinwyr ysgol ar eu taith tuag at welliant <p>Mae uwch arweinwyr bellach yn defnyddio data yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn rhanbarthol ac yn lleol yn cael eu hadnabod yn gyflym ac yr eir i'r afael â</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>hwy yn rymus trwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. O ganlyniad, mae ansawdd yr wybodaeth a rennir â'r Pwyllgor Rheoli wedi gwella yn sylweddol, sy'n galluogi aelodau i graffu'r gwasanaeth a'i herio yn sylweddol.</p> <p>Gosod Targedau Cytunwyd ar dargedau 3-blynedd heriol ar lefel ranbarthol, lleol, ysgol a disgybl. Mae targedau a rhagamcanion ysgolion yn cael eu herio yn rymus fel mater o drefn. Mae targedau'r Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • goladu targedau o ysgolion unigol • defnyddio safle PYD pob awdurdod i ragfynegi'r perfformiad disgwylidig • defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth lleol <p>O fewn y model uwchradd diwygiedig, mae gan bob ysgol Raglen Gefnogaeth</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>gynhwysfawr sy'n diffinio sut y mae GwE yn targedu cefnogaeth ac adnoddau i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn meysydd â blaenoriaeth. Mae cynnal rhaglen darged o ymweliadau adolygu yn ystod 2016-17 wedi sicrhau ein bod yn adnabod meysydd ac agweddau ar gyfer gwelliant yn fwy effeithiol ac yn fwy grymus mewn llawer o ysgolion sydd mewn risg.</p> <p>Tracio Mae GwE yn arwain ar ddatblygiadau ar system gwybodaeth reoli gynhwysfawr fydd yn rhoi gwybodaeth fanwl i GwE am berfformiad ysgolion unigol a dadansoddiad ohono. Mae hyn hefyd yn cynnwys tracio 'data byw' ar lefel ysgol uwchradd. Bydd y system newydd yn sicrhau bod y sgwrs gydag arweinwyr a rhanddeiliaid yn finocach.</p> <p>Mae GwE wedi sefydlu partneriaeth effeithiol gyda Phrifysgol Bangor –</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							Prosiect CIEREI, fydd yn arfarnu effaith agweddau ar ei waith. Mae data arfarnol a dadansoddi yn galluogi'r sefydliad i farnu gwerth am arian yn well a llywio datblygiadau'r dyfodol. Mae'r rhaglen <i>her a chefnogaeth</i> ddiwygiedig i'r sector uwchradd, yn ogystal ag elfennau targed y rhaglenni arweinyddiaeth, yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd.
E2 6.3 – 6.6 B		Gwella ansawdd yr arfarnu wrth gyflawni gwasanaethau gwella ysgolion.	Mae monitro cynlluniau yn nodi yn glir gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant. Perfformiad wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol yn unol â mesuryddion perfformiad y cytunwyd arnynt.	Bethan Eleri Roberts	Parhaus	Craidd	Bellach, mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar bob lefel wedi'u gwreiddio mewn cyflawni gwasanaethau gwella ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • fframwaith atebolrwydd grymus; • dadansoddiad manwl o ddata; • cynllunio busnes manwl ar bob lefel sy'n bwydo'r cynllun Lefel 1; • cynllun busnes awdurdod lleol manwl sy'n adlewyrchu

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>materion lleol yn fanwl gywir; a'r</p> <ul style="list-style-type: none"> • adroddiad blynyddol. <p>Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae fframwaith atebolrwydd grymus mewn lle, sy'n sicrhau bod gan bob maes gwasanaeth swyddog arweiniol dynodedig a enwebwyd. Mae pob swyddog yn gyfrifol am ddatblygu cynllun busnes manwl ar gyfer ei faes gwasanaeth, sy'n cynnwys dyddiadau cwblhau clir, goblygiadau hyfforddiant a meini prawf llwyddiant mesuradwy. Canfyddiadau hunanarfarnu yw sail blaenoriaethau cytunedig y cynlluniau busnes. Adolygir y cynlluniau bob chwarter ac adroddir am y canfyddiadau i'r uwch arweinwyr a'r bwrdd rheoli. Mae cynnydd yn cael ei ragio yn briodol a bydd uwch arweinwyr yn herio unrhyw lithriad mewn cynnydd disgwylidig. Mae adolygu rheolaidd ar bob lefel yn galluogi uwch arweinwyr i</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>arfarnu'n fanwl gywir y cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y cynlluniau lefel uchel. Mae hyn yn sicrhau bod y cynlluniau busnes yn aros yn hyblyg er mwyn gallu cynnwys blaenoriaethau newydd yn ystod y cyfnod monitro os oes angen. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y bydd y pennaeth gwasanaeth a'r uwch arweinydd uwchradd wedi cytuno arno. Nodir yn fanwl ym mhob cynllun y materion allweddol o fewn pob awdurdod, ac mae'n cynnwys cynllun gwella pwrpasol i fynd i'r afael â heriau penodol. Adolygir y cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytunedig ar lefel awdurdod lleol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r uwch arweinydd uwchradd. Caiff materion sy'n rhai parhaus eu cyflwyno ar gyfer sylw uwch arweinwyr GwE, a hynny yn amserol.</p>

7. Argymhellion Estyn

<i>Cyf</i>	<i>Blaenoriaethau</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>	<i>Monitro Chwarter 2</i>
							<p>Mae'r prosesau arfarnu sydd ar waith bellach yn rhai cylchol a pharhaus. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod yn fanwl gywir y meysydd perfformiad da a'r meysydd ar gyfer datblygiad neu'r rhai fydd efallai ddim yn cyfrannu at wella profiadau addysgol a deilliannau ar gyfer dysgwyr.</p> <p>Mae gwaith a wnaed yn ddiweddar i ddatblygu dangosfwrdd ysgol yn rhoi data cyfredol a pharhaus i GwE. Mae hyn yn hwyluso lefel uwch o gyfathrebu, cefnogaeth a her rhwng rhanddeiliaid ac yn galluogi GwE i fonitro effaith ei waith a chynnydd ysgolion yn erbyn eu blaenoriaethau cytunedig, a hynny yn fwy amserol ac effeithiol. Trwy gyfrwng y dangosfwrdd, gellir defnyddio data a dadansoddeg yn fwy effeithiol i arfarnu ansawdd gwasanaethau a'u heffaith ar berfformiad dysgwyr ac ysgolion y</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							rhanbarth. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gallu targedu ei adnoddau yn fwy effeithiol i fodloni ei flaenoriaethau, ac addasu adnoddau a'u hailgyfeirio pan nad yw pethau yn gweithio.
E3 6.3 – 6.6 B		Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.	Cofrestr Risg ar waith, gaiff ei diweddarau ac adroddir amdani yn rheolaidd. Adnabod risg yn gynnar ac yn drylwyr iawn ar bob lefel o fewn y consortiwm.	Susan O Jones	cwblhawyd	Craidd	Mae'r trefniadau cynllunio busnes a monitro newydd yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei adolygu a'i ragio yn briodol. Mae trefniadau monitro cyffredinol yr uwch arweinwyr yn sicrhau bod risgiau ar bob lefel yn cael eu rheoli yn briodol ac y cytunir ar ymyraethau yn briodol ac yn amserol. Mae'r bwrdd rheoli a'r cyd-bwyllgor yn monitro'r trefniadau hyn yn fanwl. Mae rheoli risg y rhanbarth yn effeithiol yn galluogi GwE i gefnogi amcanion y sefydliad, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni amcanion fel y bwriadwyd.
E4 6.3 –		Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant	Mae strwythur cynllunio busnes clir a fframwaith atebolrwydd ar waith sy'n gweithredu yn effeithiol.	Bethan Eleri Roberts	Cwblhawyd	Craidd	Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder pwysig yn GwE.

7. Argymhellion Estyn

<i>Cyf</i>	<i>Blaenoriaethau</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>	<i>Monitro Chwarter 2</i>
6.6 B		<p>clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.</p>	<p>Mae cynlluniau busnes yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir a thargedau mesuradwy.</p> <p>Gweithdrefnau monitro chwarterol clir a chadarn wedi'u gweithredu.</p>				<p>Mae cynlluniau manwl ar sawl lefel yn rhoi sylw i bob agwedd ar waith GwE. Mae swyddogion dynodedig a enwebwyd yn gysylltiedig â phob cynllun ac mae pob swyddog yn rhoi mewnbwn clir i'w gynllun. Ar sail y fframwaith hwn, mae trefniadau hunanarfarnu manwl ar waith. Bydd YCG yn adolygu eu cynlluniau bob chwarter ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Mae'r adolygiadau hyn yn llywio arfarniad y cynllun busnes sydd, yn ei dro, yn bwydo arfarniad chwarterol y gwasanaeth fel bod llwybr clir o arfarnu tîm yn yr adolygiad corfforaethol. Yna, bydd blaenoriaethau newydd sy'n deillio o adolygiad y gwasanaeth yn cael eu hymgorffori'n gyflym yn y cynlluniau tîm.</p> <p>Mae staff ar bob lefel yn deall yn llawn eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd. Mae rhannu cynlluniau ac arfarniadau yn gwneud timau yn gydlynol ac yn</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							gyrru'r cydweithio cryf sydd wedi arwain at well darpariaeth a gwelliant mewn safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae'r diwylliant hwn wedi deillio o arfer lwyddiannus o fewn GwE. Rhaid i YCG gyfiawnhau tanberfformiad ac adnabod meysydd risg posib, gan gynnwys gorwariant. Mae llinellau atebolrwydd wedi'u diffinio yn glir.
E5 B		Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.	Rhwydweithiau rhanbarthol wedi'u chwalu a'u disodli gan gynlluniau busnes lle bo'n briodol.	Arwyn Thomas	Cwblhawyd	Craidd	Yn dilyn yr arolygiad craidd, comisiynodd y pwyllgor rheoli adolygiad manwl o'r gwasanaeth gwella ysgolion a oedd yn cynnwys rôl y rhwydweithiau rhanbarthol. Fe ardystiodd y bwrdd rheoli a'r cyd-bwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad. O ganlyniad, cafwyd naill ai wared ar y rhwydweithiau rhanbarthol hanesyddol neu maent wedi'u cynnwys o dan reolaeth strategol GwE. Mae eu hatebolrwydd i'r cyd-

7. Argymhellion Estyn

<i>Cyf</i>	<i>Blaenoriaethau</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>	<i>Monitro Chwarter 2</i>
							<p>bwyllgor yn glir.</p> <p>Mae gan bob maes berson arweiniol a enwebwyd a chynllun busnes manwl â meini prawf llwyddiant mesuradwy. Mae'r person arweiniol yn gyfrifol am fonitro cynnydd ac adrodd bob chwarter i'r uwch reolwyr. Cyfeirir materion sydd angen sylw i'r Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ar gyfer ystyriaeth bellach.</p>
<p>E6</p> <p>6.1</p> <p>6.2</p> <p>B</p> <p>R1</p> <p>R2</p> <p>R3</p> <p>R8</p>		<p>Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.</p>	<p>Polisi a fframwaith gwerth am arian ar waith.</p> <p>Cynllun ariannol wedi'i baratoi fel rhan o'r Cynllun Busnes 3 blynedd.</p> <p>Cynllun ariannol tymor canolig ar waith</p> <p>Ffrydiau gwaith cynllun busnes wedi'u prisio yn llawn.</p> <p>Archwiliadau mewnol ac allanol yn cefnogi rheolaeth ariannol gadarn.</p>	Arwyn Thomas	Cwblhawyd	Craidd	<p>Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ategu'r cynllun busnes 3-blynedd diwygiedig. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu wedi'u halinio efo'r cynllun busnes. Trwy ddefnyddio data yn fwyfwy effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, mae'r cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau ynglŷn â chynllunio ariannol wedi'i gryfhau gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn adnabod yn glir yr adnoddau i'w defnyddio.</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							<p>Gwnaed gwaith manwl i alinio dyraniadau grant gyda'n blaenoriaethau. Mae YCG bellach yn herio ysgolion ar sut y defnyddir y cyllid grant. Mae set clir o feini prawf llwyddiant ar gyfer asesu hyn, ac mae hyn wedi lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran adnabod effaith defnyddio'r grant ar ddeilliannau disgyblion.</p> <p>Datblygwyd fframwaith ffurfiol i asesu gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Bellach, mae'r holl randdeiliaid yn cytuno ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.</p> <p>Rydym bellach yn arfarnu ac yn adolygu ein gwasanaethau a'n mentrau yn rheolaidd yn ystod cyfnod eu gweithredu er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant a gwerth am arian.</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							Mae GwE yn gweithio gyda OECD ar dreialu datblygiad y Consortia fel sefydliad sy'n dysgu. Rhennir y canfyddiadau â rhanbarthau eraill ac yn rhyngwladol wrth i ni geisio datblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

